# Sylwi ar Wymon yng Nghymru – gwymon brown


Natur Ar Eich Stepen Drws

AMGUEDDFA CYMRU

Mae oddeutu 120 math o Wymon Brown yng Nghymru, er eu bod yn aml yn edrych fel lliw gwyrdd olewydd. Maen nhw mewn grŵp perthynol o'r enw'r Phaeophyceae. Edrychwch am rai o'r rhain a rhannwch eich canfyddiadau gyda ni ar Twitter @CardiffCurator. Cymerwch ofal ar lan y môr a chynlluniwch eich trip yn ôl y llanw.

Am ragor o ganllawiau natur neu i gysylltu â gwyddonwyr amgueddfa i gael cymorth gydag adnabod, ewch i amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws

007



## Gwymon Codog Bras

hyd at 1.5 m*

*Ascophyllum nodosum*

Mae hwn yn gyffredin hanner ffordd i lawr glannau cysgodol ac yn gallu gorchuddio ardaloedd creigiog yn llwyr. Mae gan ganghennau hir, llwydwyrdd godenni aer sengl siâp ŵy o'r enw 'pledrennau' ar eu hyd (saeth uchod). Nodwch fod pledrennau wedi eu paru gan Wymon Codog Mân sy'n debyg i'r rhain.

I amcangyfrif oedran Gwymon Codog Bras, cyfrwch y pledrennau gan ddechrau o'r gludafael (lle mae'n glynnu i'r garreg), i frig y gangen hiraf. 1 pledren = 1 blwyddyn.



40 cm*

## Gwymon Danheddog

*Fucus serratus*

Edrychwch am yr ymylon danheddog neu arw ar y gwymon brown cyffredin. Mae'n gorchuddio cerrig yn bellach i lawr ar y lan.

Edrychwch am ardaloedd anwastad, sydd weithiau'n oren, ar dopiau'r canghennau. Dyma'r rhannau sy'n rhyddhau sborau i barhau cylch bywyd y gwymon.

Mae rhai pobl sy'n byw ger yr arfordir yn casglu gwymon fel hyn o ymyl y lan i'w defnyddio fel gwrtaith i dyfu llysiau.



## Gwymon Enfys Perthog

45 cm*

*Cystoseira tamariscifolia*

Ceir mathau eraill o Wymon Perthog, ond dyma'r unig un i ddangos lliw enfys llachar (symudliw) dan ddŵr. Lliw gwyrdd olewydd sydd ganddo tu allan i'r dŵr.

Mae'n tyfu mewn pyllau cerrig dwfn. Yng Nghymru, caiff ei ganfod yn Ynys Môn a Sir Benfro.

* Mae mesuriadau yn dangos hyd y gwymon. Ond mae maint gwymon yn amrywio, felly canllaw bras iawn yw hwn.



15 cm*

## Morwyal Rhychog

*Pelvetia canaliculata*

Os nad ydych chi eisiau gwlychu eich traed, dyma'r un i edrych amdano gyntaf am ei fod yn tyfu'n uchel ar y lan.

Mae'n wyrdd-frown pan yn wlyb (delwedd uchod), a brown tywyll pan yn sych (isod). Edrychwch am y sianel gaiff ei greu gan y canghennau'n cyrlio i mewn ar yr ochrau. Mae hyn yn ei helpu i gadw'n wlyb pan fo'r llanw allan.





## Chwyn weiren

2 m*

*Sargassum muticum*

Mae dros 20 math o wymon yng Nghymru sydd ddim yn frodorol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cludo yma gan bobl.

Canfuwyd chwyn weiren yn y DU ym 1973. Mae'n tyfu'n gyflym felly mae'n tueddu i gael y gorau ar wymon eraill.

Edrychwch ar y gwymon mewn pyllau cerrig yn ystod y gwanwyn a'r haf, gan ei fod yn marw yn y gaeaf.

Mae ganddo ganghennau gwydn hir iawn gyda 'dail' tebyg i gelyn a phledrennau aer crwn bach.